**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Archifau Gorllewin Morgannwg

**Ystafell Bwyllgor 1 - Canolfan Ddinesig, Abertawe**

**Dydd Gwener, 24 Mawrth 2023 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Louise Fleet (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

**Cynghorwyr - Abertawe**

| | |
|---|---|
| P M Black | L R Jones |

**Cynghorwyr - Castell-nedd Port Talbot**

| | | |
|---|---|---|
| W Carpenter | N Jenkins | S Renkes |
| J Hurley | | |

**Sefydliadau Cysylltiedig**

| | |
|---|---|
| Andrew Dulley | Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu |
| Louise Miskell | Prifysgol Abertawe |
| Janet Watkins | Cymdeithas Hynafiaethwyr Castell-nedd |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Kim Collis | Archifydd Sirol |
| Craig Griffiths | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol - CNPT |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorwyr E J King, R Mizen, R V Smith, S Perons, Wayne John a Tracey McNulty

---

## 10 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan y ddau awdurdod, datganwyd y cysylltiad canlynol:

Andrew Dulley - Eitemau 4 a 5 - personol.

## 11 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion Pwyllgor Archifau Gorllewin Morgannwg a gynhaliwyd ar 16 Medi 2022 fel cofnod cywir.

## 12 2023/2024 Cyllideb Refeniw.

Cyllideb Refeniw'r Gwasanaeth Archifau ar y Cyd ar gyfer 2022/2023 a'r arian wrth gefn sydd gan y Gwasanaeth Archifau ar y Cyd, a gyflwynwyd er gwybodaeth yn unig.

Nododd ei fod unwaith eto'n gyllideb ddigyfnewid, ac eithrio cynnydd bach ar gyfer y dyfarniad cyflog ar gyfer 2023.

Mae'r tabl yn yr adroddiad yn dangos sefyllfa amcangyfrifedig arian wrth gefn Hyfforddiant Casgliadau a'r Archifau ar 31 Mawrth 2023.

Nododd yr aelodau'r adroddiad.

## 13 Adroddiad Archifydd y Sir.

Cyflwynodd yr Archifydd Sirol adroddiad a oedd yn amlinellu gwaith y Gwasanaeth Archifau ar y Cyd yn ystod y cyfnod rhwng mis Rhagfyr 2022 a mis Chwefror 2023.

<u>Y defnydd o'r gwasanaeth</u>

Adroddodd am y ffigurau sy'n ymwneud â'r defnydd o'r gwasanaeth drwy ei lwyfannau amrywiol yn bersonol ac ar-lein.

Amlinellodd nad oedd y ffigurau ar-lein ar gael eto, oherwydd absenoldeb staff yn yr adran TG, ond y gellid eu dosbarthu wedi iddo’u derbyn.

Manylodd ar y cynnydd a wnaed o ran diffyg darpariaeth rhyngrwyd yn Sefydliad y Mecanyddion yng Nghastell-nedd. Amlinellodd fod trafodaethau pellach wedi'u cynnal â’r gwahanol gwmnïau dan sylw a bod llwybrydd newydd i'w osod ddydd Llun a ddylai ddod â'r problemau i ben.

Diolchodd i Craig Griffiths a'i staff am eu cymorth wrth symud y mater yn ei flaen.

<u>Allgymorth a Gweithgarwch Addysgol</u>

Amlinellodd y sesiynau a ddarparwyd gan wasanaeth yr ysgol yn ystod y chwarter.

<u>Ffïoedd a Thaliadau ar gyfer 2023/24</u>

Cyfeiriodd at y tabl ffïoedd a thaliadau ar gyfer y Gwasanaeth a manylodd ar y cynnydd canrannol a fydd yn weithredol o 1 Ebrill 2023.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r ffïoedd a'r taliadau ar gyfer 2023/24.

Adleoli'r Archifau i Hwb Canol y Ddinas

Amlinellodd fod gwaith yn parhau tuag at Cam 4 RIBA. Nid yw'r gwaith gwirioneddol ar y safle wedi dechrau eto.

Mae addasiadau wedi'u gwneud i ddyluniad yr ystafell ddiogel, yn bennaf o ran oeri'r ystafell a'r ffaith y bydd dadleithyddion bellach yn cael eu gosod er mwyn cynorthwyo'r broses o gyflawni BS 4971, sy'n fater allweddol o ran cadw'r gallu i storio rhai cofnodion cyhoeddus.

Cyfeiriodd at sefydlu astudiaeth dichonoldeb i asesu ac archwilio’r potensial o ddod â nifer o gasgliadau archif, ymchwil a chyfleusterau dysgu ynghyd, mewn un ystorfa ‘addas i’r diben’, a fyddai’n gallu storio deunyddiau partneriaid lluosog sydd gyda’i gilydd yn sicrhau mynediad at ein treftadaeth a buddion hirdymor ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae'r cytundeb wedi'i ddyfarnu i'r Gwasanaeth Cadwraeth Cenedlaethol.

Staff

Manylodd fod Bethany Amos wedi'i phenodi i swydd Hyfforddai yn yr adran archifau ar gytundeb cychwynnol o 6 mis, gyda'r posibilrwydd o estyniad i hyn ym mis Medi.

Cyfeiriodd gyda thristwch mawr at farwolaeth Rosemary Davies, aelod o staff a fu farw’n sydyn ym mis Ionawr.

Croesawodd aelodau'r pwyllgor benodiad yr Hyfforddai newydd yn gynnes a gofynnwyd i'r Archifydd Sirol drosglwyddo’u cydymdeimlad dwysaf i deulu Mrs Davies.

Cyfarfodydd a Hyfforddiant Proffesiynol

Amlinellodd y gwahanol grwpiau proffesiynol a chyfarfodydd yr oedd wedi bod yn bresennol ynddynt yn ystod y chwarter.

Amlinellodd fod y gwasanaeth wedi derbyn cyfrifiadur personol pwrpasol ar gyfer hyfforddiant mewn cadwraeth ddigidol. Bydd hwn yn faes hynod bwysig wrth symud ymlaen o ystyried y symud oddi wrth gofnodion papur i gofnodion electronig.

Bydd yn rhaid i'r gwasanaeth addasu a datblygu eu gallu i storio cofnodion electronig yn y dyfodol.

Mynediad at Gasgliadau’r Archifau

Manylodd ar yr archifau a dderbyniwyd gan y gwasanaeth yn ystod y chwarter

**14 Diolch.**

Dywedodd y Cadeirydd fod Sarah Perons wedi dweud y byddai'n gorffen ar y pwyllgor gan ei bod wedi ymddiswyddo o'i swydd yn Esgobaeth Llandaf.

Diolchodd iddi am ei chyfraniadau i'r pwyllgor.

Adroddodd yr Archifydd Sirol y byddai Wayne John yn ymddeol yn fuan o'i swydd fel Llyfrgellydd Sirol CNPT.

Diolchodd y Cadeirydd a phawb a oedd yn bresennol i Wayne am ei gyfraniadau i'r pwyllgor dros flynyddoedd lawer, a gofynnodd i'w dymuniadau gorau gael eu trosglwyddo iddo.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.00 am

**Cadeirydd**